Regulated by
The Commissioner for
Public Appointments

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

PENODI CADEIRYDDION I FYRDDAU IECHYD AC YMDDIRIEDOLAETHAU GIG CYMRU

Mae gennym gyfleoedd cyffrous i helpu i lunio dyfodol gofal iechyd o fewn GIG Cymru trwy ymgymryd â rôl cadeirydd bwrdd neu ymddiriedolaeth. Felly, beth am ddangos bod y gallu gennych i arwain ac ysbrydoli er mwyn gwneud gwahaniaeth i'ch gwasanaethau iechyd yn GIG Cymru?

Rydym yn recriwtio 3 chadeirydd newydd i'r Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau canlynol:-

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a De Powys.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Cwm Rhymni Uchaf, De Powys, Gogledd Caerdydd a Gorllewin y Fro.

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru - Cymru gyfan

Rydym yn recriwtio 3 Chadeirydd ar gyfer y sefydliadau uchod. Mae manylion y swyddi i'w gweld isod. Os oes gennych awydd gwirioneddol i wneud gwahaniaeth yn y meysydd hyn drwy arwain ac ysbrydoli, hoffem glywed oddi wrthych.

Rydym yn chwilio am dri unigolyn gweithgar i ymgymryd â rôl Cadeirydd a mynd i'r afael â'r her o gynllunio a chyflenwi amrywiaeth eang o wasanaethau iechyd sylfaenol, cymunedol ac eilaidd i'r cyhoedd yn y cymunedau a restrir uchod, ynghyd â gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo iechyd a lles yn yr ardaloedd hyn. Bydd angen ichi gael dealltwriaeth gadarn o faterion a blaenoriaethau iechyd yr ardal y byddwch yn ymgeisio amdani. Bydd gofyn ichi hefyd feddu ar y gallu i ddwyn gweithredwyr i gyfrif ac i roi barn ddeallus, ddi-duedd a chytbwys ar amryw o faterion cymhleth a sensitif, ynghyd â'r gallu i arwain ac ysbrydoli staff. Bydd gennych hefyd gymhelliant a phenderfyniad, sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu gwych, barn gadarn, sensitifrwydd, ymwybyddiaeth wleidyddol, y gallu i fod yn annibynnol ac yn gymeriad cryf.

Cadeiryddion

Mae Cadeiryddion yn gyfrifol am ddwyn Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd neu'r Ymddiriedolaeth i gyfrif ac maent yn atebol eu hunain i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon am eu perfformiad ac am lywodraethu eu Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth mewn ffordd effeithiol. Byddant yn arddel gwerthoedd GIG Cymru gan ennyn hyder y cyhoedd.

Byddant yn cynnig arweinyddiaeth gadarn, effeithiol a gweladwy ac yn sicrhau bod nodau strategol a gweithredol y Bwrdd Iechyd neu'r Ymddiriedolaeth yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Byddant hefyd yn cynnal safonau ac arferion iechyd o'r ansawdd orau, yn gwella ansawdd a diogelwch mewn gofal iechyd ac yn cydweithio'n effeithiol â phartneriaid i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'r ddiogel ac yn effeithiol. Y Cadeirydd sydd hefyd yn gyfrifol am arian cyhoeddus a bydd hefyd yn ymgymryd â rôl llysgenhadol.

Felly, beth am ddefnyddio eich sgiliau a'ch profiad i gyfrannu at waith y Gwasanaeth Iechyd? Mae GIG Cymru yn chwilio ar hyn o bryd am Gadeiryddion i gyflawni'r rolau canlynol:-

Cadeiryddion

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (1 swydd) –** Cadeirydd
- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (1 swydd) –** Cadeirydd
- **Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (1 swydd) –** Cadeirydd

Gwneir y penodiadau ar sail teilyngdod ond rhoddir ystyriaeth i'r angen i gael amrywiaeth gytbwys o sgiliau.

Penodir Cadeiryddion am gyfnod o hyd at bedair (4) blynedd. Mae swyddi Cadeiryddion Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chwm Taf wedi'u seilio ar ymrwymiad tybiannol o bymtheg (15) niwrnod y mis o leiaf, tra bod swydd Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gofyn am bedwar ar ddeg a hanner o ddiwrnodau (14.5) y mis. Fodd bynnag, bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliadau unigol.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, megis menywod, pobl anabl ac unigolion o leiafrifoedd ethnig, a'r sgiliau sydd gennych i gyfrannu at y rôl hon.

I gael rhagor o wybodaeth neu i wneud cais ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Desg Gymorth Cydwasanaethau Llywodraeth Cymru drwy e-bostio: DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk neu ffoniwch: 029 2082 5454.

Nodwch mai **9 Mawrth 2017** yw'r dyddiad cau

I gael fersiynau print bras, Braille, neu sain o'r hysbyseb hon, ffoniwch 029 2082 5454.